

Cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru

Teitl y cyfarfod:	Fforwm Rheoli Tir Cymru
Lleoliad:	Cyfarfod dros Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	18 Medi 2023
Aelodau yn bresennol:	Yr Athro Rhys Jones, Aelod o Fwrdd CNC (Cadeirydd) Dominic Driver, CNC Jon Goldsworthy, CNC Anthony Geddes, Confor Gareth Parry, UAC Sarah Hetherington, CNC John Browne, CNC Dennis Matheson, TFA Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru Tim Kirk, Confor Dav Letellier, CNC Fraser McAuley, CLA Ieuan Stephen Davies, CNC Marc Williams, CNC Hedd Pugh, NFU Cymru
Mynychwyr yn bresennol:	Keith Davies, CNC (Eitem 3) Geraint Richards, CNC (Eitem 4)
Ymddiheuriadau:	Ruth Jenkins, CNC Martyn Evans, CNC Huwel Manley, CNC Lee Pritchard, CFFI Cymru Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru
Ysgrifenyddiaeth:	Bronwen Martin, CNC

Eitem 1. Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd yr Athro Rhys Jones (Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru) bawb i'r cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau.
2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn cysylltiad â'r eitemau ar yr Agenda.
3. Atgoffwyd y grŵp bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cwblhau.

Eitem 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, camau gweithredu a materion yn codi

4. Ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu hadolygu a'u cytuno yn ffurfiol, byddant yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan CNC. Adolygodd y Grŵp gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2023. Awgrymodd Rhys y dylid addasu ymadrodd disgrifiadol a ddefnyddiwyd gan Anthony Geddes, Confor i ddisgrifio llinellau amser Bil Amaethyddiaeth (Cymru). Cytunodd Anthony, ac awgrymodd y dylid defnyddio'r gair 'anghyraeddadwy' yn lle. Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod gwir.
5. Adolygodd y grŵp y camau sydd heb eu cymryd a darparwyd diweddariadau llafar.
6. Cyfeiriodd Rhys at y trafodaethau blaenorol yn ymwneud â dogfen Tenantir - Cwestiynau Cyffredin Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Mae'r cyngor wedi cael ei ddiweddarau yn dilyn trafodaethau helaeth gyda TFA Cymru.
7. Dywedodd Bronwen fod yna ddau gam sydd heb eu cymryd o fis Mawrth yn ymwneud ag afancod. Mae Bronwen wedi siarad gyda chydweithwyr ac wedi derbyn diweddariad ysgrifenedig byr ddydd Gwener ynglŷn â'r cam gweithredu i egluro'r sefyllfa gyfreithiol yn ymwneud ag afancod. Fodd bynnag, ni chafwyd diweddariad yn ymwneud â phwynt gweithredu mis Mawrth AP03 'Sarah Wood i roi diweddariad ar y camau nesaf yn dilyn yr adolygiad o dystiolaeth ar gyfer afancod'. Mewn ymateb i hyn, dywedodd Bronwen 'ymddiheuriadau, ond does dim diweddariad pellach ar hyn o bryd, ond mae CNC yn trafod gyda Llywodraeth Cymru am linellau amser a'r camau nesaf'. Dywedodd Bronwen y bydd hi'n parhau i gysylltu â Sarah i ofyn am y cynnydd sy'n cael ei wneud ac a oes modd rhannu gwybodaeth gyda'r grŵp hwn wrth symud ymlaen.

Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru fod angen i unrhyw strategaeth sy'n ymwneud ag ailgyflwyno afancod fod yn destun ymgynghoriad cyn cael ei chwblhau. Rydym yn ymwybodol o'r darn o waith sydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac mae angen iddo ystyried pryderon economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ehangach - dim ond trwy gynnal ymgynghoriad y mae modd gwneud hyn. Cyn i'r strategaeth hon gael ei chwblhau gyda Llywodraeth Cymru, mae angen sicrhau bod y broses yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus, yn enwedig ar gyfer y cymunedau sy'n cael eu heffeithio. Gofynnodd Rhys am gofnodi cam gweithredu i egluro a fydd ymgynghoriad ar y mater hwn.

PG 01 Medi: Bronwen Martin i holi Sarah Wood a fydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar strategaeth Afancod.

8. Mewn perthynas â cham gweithredu a gofnodwyd ym mis Mehefin (PG 01 Mehefin) yn ymwneud â 'Diweddariadau ynghylch ymholiad UAC am wrthdaro posibl yn ymwneud â Draenio Cynaliadwy a Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, roedd Bronwen wedi gwneud gwaith dilynol yn fewnol, a darparwyd llythyr ymateb i UAC. Serch hynny, mater i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol yw hwn mewn gwirionedd.
9. Gofynnodd Rachel a oes diweddariad gan CNC ar ffermio dwys EPR a'r ffaith fod penderfyniadau am drwyddedau wedi'u hatal. Holodd am y sefyllfa ddiweddaraf. Cofiodd Bronwen fod Rachel wedi codi'r mater hwn mewn e-bost, ond nid yw'n gallu darparu diweddariad ar hyn o bryd. Serch hynny, byddai'n codi'r mater eto gyda

chydweithwyr ar ôl y cyfarfod. Dywedodd Rachel fod cyfathrebu ar y mater hwn yn bwysig iawn.

PG 02 Medi: Bronwen Martin i ofyn am ddiweddariad ysgrifenedig gan gydweithwyr CNC ar y sefyllfa yn ymwneud â ffermio dwys EPR.

Eitem 3. Cyflwyniad ar Dirweddau Dynodedig

10. Ymunodd Keith Davies, CNC â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith CNC mewn perthynas â'r Rhaglen Tirweddau Dynodedig. Nododd Keith ei fod wedi rhoi cyflwyniad byr i Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Mawrth 2022 yn ymwneud â Dynodi Parc Cenedlaethol ([CNC:WLMF - Mawrth 2022](#)).
11. Dywedodd Keith fod y rhaglen yn cynnwys dau brosiect. Mae'r naill yn edrych ar ddynodi Parc Cenedlaethol, a'r llall yn edrych ar ddadansoddiad o Gymru yng nghydestun Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Bydd y cyflwyniad hwn yn canolbwyntio ar y gwaith yn ymwneud â Dynodi Parc Cenedlaethol.
12. Daeth y gwaith i asesu'r achos o blaid sefydlu Parc Cenedlaethol newydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru i'r amlwg o ganlyniad i'r Rhaglen Lywodraethu bresennol yng Nghymru, gan gynnwys ymrwymiad i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd sy'n canolbwyntio ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
13. CNC yw'r Awdurdod Dynodi Statudol yng Nghymru sy'n gyfrifol am y broses ddynodi ac am roi cyngor i Weinidogion Cymru ar ystyried a chadarnhau, gwrthod neu ddiwygio unrhyw Orchymyn Dynodi. Rydym yn gyfrifol am gynnal y digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu, sy'n hanfodol i lywio unrhyw benderfyniad. Dywedodd Keith ein bod yn gweithio yn unol ag amserlen i gwblhau'r gwaith yn ystod tymor presennol y Senedd.
14. Disgrifiodd Keith bob un o'r camau canlynol:
 - Cam 1: Cyn cychwyn
 - Cam 2: Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu
 - Cam 3: Proses ddynodi statudol
15. Eglurodd Keith y meini prawf ar gyfer penderfynu a yw ardal yn gymwys i fod yn Barc Cenedlaethol, fel y'i nodir mewn dynodiad. Mae dau brawf sylfaenol y mae angen eu bodloni o ran y dystiolaeth, sef darnau tir helaeth o harddwch naturiol, ac a yw'r ardal yn darparu digon o gyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored. Oni bai ein bod ni'n gallu dangos bod y dystiolaeth yn bodloni'r profion hyn, ni fyddem yn gallu symud ymlaen i argymhell dynodiad fel Parc Cenedlaethol.
16. Hefyd, mae angen i ni ystyried y gwaith yng nghydestun deddfwriaeth Cymru gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Felly, bydd angen i ni fynd ati i gynnal y drafodaeth ar harddwch naturiol a hamdden awyr agored yng nghydestun y tueddiadau a'r cyfleoedd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach yn yr ardal. Hefyd, bydd angen canolbwyntio ar gyfleoedd i fynd i'r afael â heriau'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd, a sut y gallai Parc Cenedlaethol newydd helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn mewn ffordd sy'n cefnogi llesiant ehangach yn yr ardal.

17. Dangosodd Keith nifer o fapiau ac eglurodd gyd-destun yr ardal chwilio gan gynnwys priodweddau tirwedd arbennig, awdurdodau lleol, nodweddion arwyddocaol ac agweddau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y broses o gasglu tystiolaeth.

18. Fe aeth Keith ati i grynhoi'r camau nesaf ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwaith:

- Casglu tystiolaeth – priodweddau tirwedd arbennig ar gyfer yr ardal chwilio, grymoedd ar gyfer newid ac opsiynau rheoli.
- Awst/Medi – ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach (sefydliadau, cyrff cynrychioliadol ac ati)
- Hydref/Tachwedd – ymgysylltu â'r cyhoedd (digwyddiadau galw heibio lleol ledled yr Ardal Chwilio ac ar-lein)
- Digwyddiadau sector-benodol
- Ymgynghoriad Cyhoeddus 2024

19. Disgrifiodd Keith y darn arall o waith oddi mewn i'r Rhaglen sy'n canolbwyntio ar sut mae tystiolaeth yn cael ei choladu ar gyfer harddwch naturiol – Mapio Harddwch Naturiol Integredig Cymru. Mae yna 4 thema integredig mewn cyd-destun tirwedd, gan gynnwys:

- Harddwch naturiol
- Adfer natur
- Y gallu i ymdopi â'r newid yn yr hinsawdd
- Lles

20. Rydym yn archwilio'r mathau o wybodaeth a thystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Megis dechrau y mae'r gwaith hwn, ond mae'r camau nesaf yn cynnwys casglu tystiolaeth, sefydlu grŵp cynghori technegol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol ym mis Hydref. Cynigiodd Keith drefnu trafodaeth fanylach gydag aelodau os ydyn nhw eisiau mwy o fanylion, yn enwedig yn ymwneud â phroses dynodi'r Parc Cenedlaethol.

PG 03 Medi: Bronwen Martin, CNC i rannu manylion cyswllt ar gyfer Keith Davies, CNC.

21. Gofynnodd Gareth Parry, UAC a oes dyddiadau wedi'u clustnodi ar gyfer ymgysylltu'n ehangach â thrigolion, ffermwyr, tîrfeddianwyr ac eraill sydd o fewn yr ardal chwilio. Byddai'n dda cael rhestr i'w rhannu â'n rhwydweithiau a'n haelodau oherwydd efallai y byddant am fynychu sesiynau gwahanol. Dywedodd Keith y gallai ddsbarthu dyddiadau'r digwyddiadau ymgysylltu a'r sesiynau ar gyfer rhanddeiliaid. Hefyd, byddwn yn cynnal sesiynau pwrpasol ar gyfer sectorau gwahanol (e.e. tir, hamdden amgylcheddol, adnewyddadwy ac ati). Rydym wedi caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd a bydd gennym amser i gynnwys sesiynau ychwanegol er mwyn sicrhau bod eraill yn rhan o'r broses ac yn ymgysylltu â hi.

22. Gofynnodd Rachel a yw'r mapiau yn y cyflwyniad ar gael i'r cyhoedd ar wefan CNC. Dywedodd Keith nad ydyn nhw'n cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd, ond byddan nhw ar gael pan fydd y digwyddiadau ymgysylltu yn dechrau ym mis Hydref. Awgrymodd Rachel nad yw pobl yn gwybod mewn gwirionedd a oes angen iddynt ymgysylltu oni bai eu bod yn gweld y mapiau cyn y sesiynau. Dywedodd Keith y byddai'n derbyn yr adborth.

O ran y gwaith mapio harddwch naturiol, gofynnodd Rachel a yw Keith wedi cysylltu â CEH ynglŷn â'r gwaith a gafodd ei wneud trwy Raglen Monitro a Gwerthuso Glastir a

ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chynllun Datblygu Gwledig yr UE i fonitro Glastir. Fe wnaeth CEH ddatblygu adnodd i asesu harddwch y dirwedd, a gallai'r gwaith hwn fod yn berthnasol neu efallai ei fod wedi'i wneud eisoes. Dywedodd Keith nad ydynt wedi cysylltu â'r gwaith hwn eto, ond ein bod megis dechrau cwmpasu'r gwaith i ddeall pa dystiolaeth ac adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd. Diolchodd Keith i Rachel am yr awgrym a dywedodd y byddai'n gwneud ymholiadau.

23. Gofynnodd Dennis a ydyn nhw'n gwybod beth yw cyfanswm arwynebedd (mewn hectarau) y Parc Cenedlaethol arfaethedig.

Dywedodd Dennis ei fod wedi mynychu lansiad CNC o'r Cynllun Corfforaethol yn y Senedd ym mis Mehefin. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyflwyniadau gan y Gweinidog Julie James, Syr David Henshaw a'r Gweinidog Lee Waters. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw sôn o gwbl am gynhyrchu bwyd neu ddiogelwch bwyd yng Nghymru. Awgrymodd Dennis y dylai CNC gymryd sylw o'r sefyllfa yn Lloegr. Eglurodd Dennis fod gan y TFA aelodau yn Dartmoor, a'r cynnig yno yw lleihau'r gyfradd stocio ar y rhostir i 0.01 o unedau da byw fesul hectar, sef 1/10 o'r hyn sydd ar Yr Wyddfa ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae'n anymarferol i ffermwyr ffermio ar Dartmoor. Trafododd Dennis y sefyllfa ym Mynyddoedd y Berwyn lle cafodd y stoc ei dynnu, gan arwain at goed conwydd hunan-hadu yn tresmasu. Erbyn hyn, mae'r grug wedi gordyfu i'r fath raddau nad oes modd cerdded drwyddo. Erfyniodd Dennis ar bobl i ystyried yr hyn a ddisgrifiodd fel camreoli gan bobl nad ydynt yn gwybod unrhyw beth am y goblygiadau mewn rhannau eraill o'r DU.

Diolchodd Keith i Dennis am ei sylwadau a dywedodd mai'r math hwn o wybodaeth am reoli yw'r math o ymgysylltiad y maen nhw am ei sicrhau trwy gydol y broses ymgynghori. Rydym yn awyddus i ddeall y materion a'r cyfleoedd allweddol sy'n cael effaith ar hyn o bryd, a chefnogi'r ardal yn y dyfodol o bosibl. Mae'r broses ymgynghori yn debygol o godi ystod eang o faterion penodol y bydd angen i ni eu hystyried er mwyn dod o hyd i'r ffordd orau ymlaen. Nid ydym wedi penderfynu ar ffiniau eto, ond yr ardal chwilio yw'r ardal a fydd yn ein helpu i goladu'r dystiolaeth i nodi ardal ymgeisydd.

24. Dywedodd Fraser McAuley, CLA fod y CLA wedi trafod y dynodiad yn fewnol gyda rhai o'u pwyllgorau a'u haelodau yn yr ardal. Mae gan CLA rai pryderon penodol, ond efallai y bydd rheiny'n dod i'r amlwg yn ddiweddarach yn yr ymgynghoriad. Dywedodd Fraser ei bod yn bwysig sicrhau bod pawb sy'n debygol o gael eu heffeithio yn cael cyfle i ymgysylltu, a gofynnodd a fydd gwybodaeth trwy'r post (yn debyg i Ddiweddariad y Gwanwyn gan Lywodraeth Cymru) yn cael ei hanfon i bobl nad oes ganddynt fynediad at y Rhynggrwyd o bosibl. Dywedodd Fraser y bydd y CLA yn cysylltu â'i haelodau sy'n debygol o gael eu heffeithio er mwyn rhoi gwybod iddynt fod prosesau ymgynghori ar y gweill, ond nododd ei bod yn bwysig sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan. Dywedodd Keith nad oes bwriad anfon gwybodaeth fanwl trwy'r post cyn y digwyddiadau ymgysylltu arfaethedig, ond y gellir ystyried gwneud hynny pan fyddwn ni'n cyrraedd cam mwy ffurfiol. Rydym yn awyddus i glywed sut y gallwn ddefnyddio rhwydweithiau presennol (e.e. rhanddeiliaid a grwpiau yn yr ardal) i ledaenu'r neges am y broses sydd ar fin dechrau. Hefyd, rydym yn awyddus i sicrhau bod yr ymgysylltiad yn cynnwys pob grŵp a allai elwa neu gael ei effeithio.

25. O ran arwynebedd y tir, dywedodd Rachel fod hon yn ystyriaeth bwysig iawn gan fod tua 25% o dir Cymru eisoes wedi'i ddynodi'n Barc Cenedlaethol neu'n AHNE. Os yw CNC yn bwriadu cynyddu'r arwynebedd yn sylweddol, byddwn ni'n cyrraedd sefyllfa lle nad yw'r ardaloedd hyn yn cael eu dynodi oherwydd eu bod yn arbennig. Fe wnaeth

Keith gadarnhau bod gan 25% o dir Cymru ddynodiad tirwedd statudol ar hyn o bryd, ac rydym yn ystyried hynny. Mae angen i ni ddangos bod yr ardal arfaethedig yn bodloni'r profion statudol allweddol. Rydym megis dechrau ar y gwaith, ond rydym yn awyddus i glywed safbwyntiau a fydd yn helpu i lunio ein gwaith yn y dyfodol ar y mater hwn.

26. Gofynnodd Rhys am eglurhad ynglŷn ag a fydd yr ymgynghoriad yn ystyried a oes angen dynodiad o gwbl, neu a yw'n ymgynghoriad ar ehangder daearyddol y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Dywedodd Keith fod yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r ddau fater hyn, ac y bydd yr ardal chwilio yn darparu'r fframwaith ar gyfer y broses o gasglu tystiolaeth fanylach yn erbyn y meini prawf. Hefyd, mae'n gyfle i randdeiliaid a chymunedau fynegi eu barn ar a fyddai'r ardal yn elwa o fod yn Barc Cenedlaethol. Yna, yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r ymatebion gan gymunedau, byddai angen i CNC benderfynu a ddylid symud ymlaen i'r cam nesaf ai peidio, sef yr ardal ymgeisydd. Bydd hynny wedyn yn sylfaen i ymgynghoriad mwy ffurfiol a manwl.
27. Dywedodd Keith ei fod yn fwy na pharod i ymgysylltu â'r fforwm yn rheolaidd wrth i'r broses symud ymlaen oherwydd ei bod yn bwysig bod llais y gymuned rheoli tir yn cael ei glywed a'i adlewyrchu yn y trafodaethau am y cynnig.

Eitem 4. Adolygiad o Esemptiadau Gwastraff

28. Ymunodd Geraint Richards, CNC â'r cyfarfod i roi trosolwg a diweddariad ar yr Adolygiad o Esemptiadau Gwastraff. Mae Geraint yn gweithio yn nhîm Polisi Gwastraff CNC ac mae'r rhan fwyaf o'i waith yn ymwneud â rheoleiddio'r diwydiant gwastraff, ond mae hefyd yn ymdrin â throsteddau gwastraff, trosteddau cyfundrefnol a gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon.
29. Dywedodd Geraint mai esemptiadau gwastraff yw'r caniatâd sydd ei angen arnoch i reoli gwastraff ar fferm. Er eu bod yn berthnasol i'r diwydiant cyfan ac i'r holl sectorau, maen nhw'n effeithio ar unrhyw un sy'n trin gwastraff yn hytrach nag ar y sector ffermio yn benodol. Os cyflwynir y newidiadau, byddant yn berthnasol i bob sector, ac nid oes unrhyw newid yn ymwneud â ffermio yn unig.
30. Yn ystod y 10 i 15 mlynedd diwethaf, bu cynnydd enfawr yn nifer y trosteddau gwastraff a'r effaith y maen nhw'n ei chael. Mae Llywodraeth Cymru a Defra wedi bod yn edrych ar y sefyllfa ac yn gweithio ar fesurau i fynd i'r afael â throsteddu a pherfformiad gwael yn y diwydiant. CNC yw'r rheoleiddiwr yng Nghymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r rheoleiddiwr yn Lloegr, a buom yn gweithio ochr yn ochr ar y mater hwn gan obeithio cyflwyno rhai newidiadau a chynghori'r llywodraeth ar yr hyn sydd angen ei wneud.
31. Cynhaliwyd ymgynghoriad eang ar droseddau gwastraff yn 2018, gan arwain at ddeddfu ar sawl mater. Cyflwynwyd y mesurau hyn yn raddol dros amser, a'r olaf i'w gyflwyno yw'r adolygiad o esemptiadau gwastraff. Cyhoeddwyd ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad yn gynharach eleni.
32. Ni chodir tâl am gofrestru esemptiadau ar hyn o bryd, ac ni ddisgwylir y bydd unrhyw newidiadau i hynny yng Nghymru. Maent yn caniatáu trin rhai mathau o wastraff ar gyfer gweithgareddau risg isel yn unig. Codir tâl am drwydded, sy'n broses lawer mwy beichus. Mae'n cynnwys ymweliad arolygu a nifer o ofynion eraill sy'n gysylltiedig â thrwydded. Mae llawer llai o risg yn gysylltiedig ag esemptiadau, ac ar fferm, byddai enghreifftiau yn cynnwys adeiladu traciau, llosgi llystyfiant clir, teiars ar gladdfeydd

silwair a rhywfaint o wasgaru ar y tir. Mae 7 neu 8 o'r rhain ar y rhan fwyaf o ffermydd. Fodd bynnag, mae gweithredwyr diegwyddor yn gallu camddefnyddio'r drefn hon oherwydd lefel isel eu risg. Mae'r diwydiant amaethyddol yn defnyddio llawer o esemptiadau ac mae tua 75-80% o'r holl esemptiadau wedi'u cofrestru ar ffermydd.

33. Nid yw'r newidiadau wedi'u hanelu at y diwydiant amaethyddol o gwbl - y nod yw mynd i'r afael â throeddau gwastraff a pherfformiad gwael yn y diwydiant gwastraff. Ychydig iawn o oblygiadau ddylai fod i ffermwyr, ond bydd angen bod yn ymwybodol o rai pethau, a byddant yn berthnasol iawn i ffermydd sydd wedi arallgyfeirio o weithgareddau amaethyddol. Os na allwch chi elwa o esemptiad, mae'r newidiadau'n golygu y bydd angen trwydded arnoch chi neu bydd angen i chi roi'r gorau i weithredu. Y syniad yw codi safonau, trin y diwydiant yn yr un modd, a helpu i sicrhau bod gwastraff yn cyrraedd y lle cywir.
34. Bydd y newidiadau sy'n dod i rym yn gwahardd esemptiadau ar safle cymeradwy. Ar hyn o bryd, gallai rhywun fod â safle gweithredu gwastraff fel iard sgrap, neu orsaf trosglwyddo gwastraff, a chofrestru esemptiad ar y safle hwnnw. Fodd bynnag, ni chaniateir hynny yn y dyfodol. Dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd ar gyfer gosodiadau, sy'n weithfeydd mwy o ran maint fel gweithfeydd treulio anaerobig, unedau moch a dofednod ac ati. Mae esemptiadau eisoes wedi'u gwahardd ar y safleoedd hyn. Dywedodd Geraint nad yw'n rhagweld y bydd y newid hwn yn cael gormod o effaith ar ffermydd gan nad yw ffermydd yn cofrestru gweithrediadau gwastraff.
35. Mae angen gwneud rhywfaint o waith o hyd er mwyn diffinio beth mae hyn yn ei olygu yn y rheoliadau, ac mae angen i'r Llywodraeth wneud mwy o waith hefyd. Mae'n debygol y bydd gennym ryw fath o ddiffiniad synnwyr cyffredin o ystyr lleoliad i'r gymuned ffermio, ac y bydd yn wahanol iawn i un lleoliad ar gyfer gorsaf drosglwyddo. Hefyd, mae rhai newidiadau yn ymwneud â chadw cofnodion, ond nid ydym yn rhagweld y byddant yn cael gormod o effaith. Rydym yn edrych ar y posibilrwydd y bydd y rheoleiddiwr yn gallu gofyn am wybodaeth benodol am y gwastraff a ddefnyddiwyd o dan esemptiad a ddylai fod ar gael eisoes. Felly, bydd gan unrhyw un sy'n dod â gwastraff i safle nodyn trosglwyddo ar gyfer pob symudiad ar gyfer pob trosglwyddiad. Trafododd Geraint y mater o gadw cofnodion electronig, sy'n gysylltiedig â system arfaethedig newydd i olrhain symudiadau gwastraff, a elwir yn System Olrhain Gwastraff Electronig.
36. Mae cyfanswm o tua 60 esemptiad, a bydd newidiadau i ddeg o'r esemptiadau sy'n cael eu camddefnyddio mwyaf. Rydym wedi edrych ar y data a'r dystiolaeth, a nodwyd tua deg o'r esemptiadau hyn fel rhai â blaenoriaeth uwch. Rydym yn gweld rhai o'r esemptiadau hyn ar ffermydd, a'r esemptiad mwyaf cyffredin ar ffermydd mae'n debyg yw U1 - Defnyddio gwastraff wrth adeiladu. Mae gweithredwyr diegwyddor yn camddefnyddio'r eithriad hwn yn aml er mwyn gwaredu gwastraff mewn safle tirlenwi bach lle maent yn gwaredu gwastraff ac yna'n esgus adeiladu rhywbeth. Nid ydym yn gweld hyn yn digwydd yn aml ar ffermydd, ond rydym wedi gorfod cyflwyno'r newid. Mae'r newid hwn yn caniatáu adeiladu traciau, creu man caled i barcio cerbydau neu gadw bêls ac ati. Rydym wedi ystyried anghenion amaethyddol, felly ni ddylai effeithio ar y gweithgareddau amaethyddol cyffredin, ond bydd yn amharu ar weithredwyr anghyfreithlon sy'n ceisio gwaredu gwastraff. Mae'n debyg bod angen i'r gymuned ffermio gael gwybod am y newid hwn yn fwy nag unrhyw un o'r lleill. Mae'r llall yn ymwneud â chlirio prysgwydd a'u llosgi. Mae rhai gweithredwyr wedi camddefnyddio'r eithriad hwn er mwyn dod â gwastraff i safle a'i losgi. Fodd bynnag, nid dyna oedd

bwriad yr esemptiad erioed - mae'n ymwneud â gwastraff sy'n cael ei greu ar y safle i'w losgi. Rydym wedi egluro hyn trwy nodi mai gwastraff sy'n cael ei greu ar y safle yw'r gwastraff hwn.

37. Nid oes sicrwydd eto ynglŷn ag amserlenni'r newidiadau - rydym yn ddibynnol ar y Senedd a Senedd y Deyrnas Unedig. Rydym wedi gweld ymateb y Llywodraeth eleni, ond ni fydd y newidiadau'n cael eu rhoi ar waith nes bod y Rheoliadau yn cael eu gosod (y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol), sef y rheoliadau galluogi. Mae'n bosibl y bydd y newidiadau yn dod i rym yn ystod gwanwyn y flwyddyn nesaf, ond gallai fod yn hwyrach na hynny. Bydd rhai newidiadau'n dod i rym yn syth, ond bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyflwyno'n raddol, gan roi amser i weithredwyr addasu eu gweithrediadau. Mae'n debyg y bydd y rhan fwyaf o'r newidiadau wedi cael eu cyflwyno o fewn y ddwy flynedd nesaf.
38. Mae gennym gynllun cyfathrebu manwl sy'n cynnwys y diwydiant amaethyddol, ond wrth reswm, mae heddiw yn gyfle da i ni godi ymwybyddiaeth o hyn. Dywedodd Geraint y byddai'n hapus i ddychwelyd i'r grŵp hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol pe bai hynny'n ddefnyddiol.
39. Dywedodd Rachel ein bod yn awyddus i sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r gymuned ffermio. Gofynnodd Rachel a oes modd i Geraint baratoi papur byr yn crynhoi'r newidiadau, ac os felly, a fyddai'n bosibl i bobl gael copi o'r papur a chyfle i wneud sylwadau arno? Cytunodd Geraint i roi crynodeb o'r newidiadau a'r amserlenni disgwylidig. Mae croeso i aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru gysylltu â Geraint os oes angen. Atgoffodd Geraint y grŵp y bydd y manylion yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau, sy'n dal i gael eu hysgrifennu. Fodd bynnag, mae modd codi unrhyw faterion gyda Geraint, er mwyn iddo ddylanwadu ar y broses a cheisio osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol.
40. Dywedodd Dominic Driver fod agwedd Geraint at y fforwm wedi bod yn wych, bod y drafodaeth hon yn digwydd yn gynnar yn y broses, a bod Geraint wedi amlinellu'r cyddestun ac wedi egluro'r effaith bosib ar ffermio. Gofynnodd Dominic am y canlyniadau anfwriadol posibl ar gyfer rheolwyr tir os yw coedwigaeth yn rhan o'u gwaith Rheoli Tir. Dywedodd Geraint nad oes llawer o sylw wedi'i roi i'r mater hwn, felly byddai'n ddefnyddiol clywed barn pobl. Awgrymodd Geraint y gallai'r papur crynodeb fod yn gymharol gyffredinol ac yna gallwn ni ei ystyried o holl safbwyntiau gwahanol y grŵp. Dywedodd Geraint nad yw wedi ymgysylltu llawer â'r meysydd rheoli coedwigaeth a gwastraff. Ac nid yw'n ymwybodol ei fod yn sector sy'n creu problemau. Fodd bynnag, mae angen i ni sicrhau ein bod yn ystyried unrhyw ganlyniadau anfwriadol.
41. Fe wnaeth Rhys gydnabod rôl y fforwm hwn a'i allu i geisio dylanwadu ar ddatblygiad rhai o'r polisiau a'r rheoliadau hyn. Mae'n dda bod pobl yn ymgynghori â ni yn gynnar yn y broses a chael cyfle i godi rhai o'r materion.
42. Cyfeiriodd Dennis Matheson at waredu dip defaid a'r angen am drwydded. Gofynnodd Dennis a yw'n gwneud synnwyr i CNC gynyddu'r ffi am drwydded i ledaenu dip defaid ar yr union adeg pan fydd Llywodraeth Cymru yn lansio rhaglen dileu'r clafr. Dywedodd Geraint nad yw'n esemptiad, ac y byddai'n rhywbeth a elwir yn Awdurdodiad Dŵr Daear. Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn berthnasol i hyn oherwydd ei bod yn fath o drwydded ar gyfer gwaredu gwastraff. Dywedodd Geraint nad yw'r mater hwn yn rhan o'i faes gwaith.

43. Dywedodd Rhys ein bod wedi derbyn papur penodol ar Waredu Dip Defaid cyn y cyfarfod hwn. Cyfeiriodd Rachel at bapur CNC, a dywedodd y gellid dadlau ei fod yn gwbl groes i'r cyflwyniad a gawsom gan Geraint o safbwynt dull gweithredu. Gofynnodd Rachel a oes cyfle i drafod y papur hwn heddiw oherwydd byddai gennym rai sylwadau i'w gwneud. Awgrymodd Rhys y dylem ddychwelyd at y pwnc hwn wrth drafod Unrhyw Fater Arall.
44. Cyfeiriodd Anthony Geddes at reoli coetiroedd a'r ffaith fod ffermwyr yn gallu cofrestru esemptiad ar gyfer llosgi llystyfiant ar raddfa fach. Gofynnodd Anthony ar ba bwynt y mae gweithred o'r fath yn troi'n warediad masnachol, gan arwain o bosibl at angen am drwydded? Gofynnodd Anthony hefyd am ddeunydd sy'n cael ei werthu oddi ar y safle. Dywedodd Geraint fod materion gwastraff yn gallu bod yn gymhleth, ond yn gyffredinol, nid oes angen trwydded ar gyfer coed sydd wedi dod o goedwig sydd heb ei thrin. Dywedodd Anthony fod gwaith coedwigaeth yn cynnwys sawl elfen sensitif yn ymwneud â materion fel gwaredu deunyddiau ar gyfer cynnal a chadw peiriannau. Wrth reswm, mae'r agweddau hyn yn cael eu trin mewn modd rheoledig oherwydd eu bod yn sylweddau rheoledig. Serch hynny, a oes gennych chi unrhyw gynlluniau i edrych ar goedwigaeth? Cadarnhaodd Geraint fod y trafodaethau heddiw wedi codi'r mater hwn. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd unrhyw oblygiadau gan fod y rhan fwyaf o weithgareddau coedwigaeth y tu allan i'r drefn rheoli gwastraff, felly byddai'n debyg i'r hyn y mae ffermwyr yn ei wneud wrth adeiladu traciau ac ati.

PG 04 Medi: Geraint Richards i ddosbarthu dogfen sy'n crynhoi'r newidiadau disgwylidig i Esemptiadau Gwastraff ynghyd â'r amserlenni tebygol.

PG 05 Medi: Y grŵp i gyflwyno unrhyw sylwadau ar y newidiadau disgwylidig i Esemptiadau Gwastraff (gan gynnwys problemau a chanlyniadau anfwriadol posibl).

Eitem 5. Diweddariadau CNC

45. Cyn y cyfarfod, dosbarthwyd Papur Diweddaru Fforwm Rheoli Tir Cymru. Anogir aelodau i adolygu'r ddogfen ymlaen llaw a pharatoi cwestiynau ar gyfer y cyfarfod. Croesawodd Dominic gwestiynau gan yr aelodau.
46. Gofynnodd Gareth pryd fydd yr arolygiadau rheolaidd yn dechrau ar gyfer Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Mae staff CNC wedi'u penodi ond nid yw arolygiadau wedi dechrau eto. Dywedodd Sarah Hetherington y byddai'n trafod y mater hwn â chydweithwyr ac yn rhoi gwybod i Gareth wedyn.

PG 06 Medi: Sarah Hetherington i ofyn i gydweithwyr pryd y bydd arolygiadau ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn dechrau, gan hysbysu Gareth Parry wedyn.

47. O ran yr adroddiad ar gaffael tir, gofynnodd Gareth a oes ffigwr canran ar gael ar gyfer faint o'r tir a oedd yn dir amaethyddol o'r blaen ac a oes gwybodaeth ar gael am ganran y defnydd tir blaenorol. Dywedodd Dominic nad yw'r union ffigurau ar gael ond bod y rhan fwyaf yn dir amaethyddol. Fodd bynnag, bydd tir yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd wahanol ar bob safle (e.e. coed ar ffermydd). Mae'r math o dir y gellir ei gaffael sy'n addas ar gyfer creu coetiroedd yn tueddu i fod yn dir amaethyddol. Rydym wedi ceisio gweithio gydag awdurdodau lleol (ac eraill) ar fathau eraill o dir, ond yn ymarferol rydym yn canfod yw nad yw'r rhan fwyaf o'r tir sy'n cael ei gynnig yn addas (e.e. tir halogedig). Dywedodd John Browne fod y tir yn tueddu i fod yn dir amaethyddol o

ansawdd gwael megis tir Gradd 3B a llai. Soniodd Gareth am brosiect adfer coetir yn yr Alban. Dywedodd Dominic fod y gweithgaredd hwn yn ymwneud â chreu coetir newydd i wneud iawn am ddatgoedwigo parhaol ar y tir sydd eisoes yn ein gofal ac na fyddai'n addas ar gyfer tir sydd wedi'i goedwigo yn ddiweddar gan na fyddai'n goetir newydd.

48. Dywedodd Anthony fod y diweddariad gan Miriam yn dda ac yn gynhwysfawr ond nododd ei bod yn ardal fwy na 350 hectar a gafodd ei cholli wrth greu'r safleoedd ynni hyn. Cafodd ardaloedd mwy o ran maint eu cwmpo er mwyn helpu gwaith modelu gwynt neu waith creu a datblygu, felly ni fydd ailstocio'r ardaloedd hyn yn union o amgylch tyrbinau gwynt yn digwydd. Mewn gwirionedd, mae'r digolledu ar gyfer yr ardaloedd bach lle mae'r tyrbinau wedi'u lleoli ac ar gyfer seilwaith y ffordd a'r llwybrau mynediad. Rydym wedi colli arwynebedd llawer mwy o ran maint o goetir cynhyrchiol ar Ystad Goetiroedd Llywodraeth Cymru. Bydd yn cael ei ddisodli gan orchudd biolegol, ond nid yw'n goetir cynhyrchiol, nid yw'n rhywogaeth gynhyrchiol, ac nid yw'n cynnal y cynnydd cynhyrchiol sydd ei angen ar gyfer datgarboneiddio, i'w amnewid i dai neu gynhyrchion eraill. Ymarferiad cyfrifyddu yw hwn mewn sawl ffordd. Mae disodli coed sydd wedi'u colli o dan goncrit yn un agwedd, a chynnal ardal gynhyrchiol yr ystad yn agwedd arall.

Dywedodd Anthony mai hwn yw ei gyfarfod Fforwm Rheoli Tir Cymru olaf cyn i'w olynnydd gymryd yr awenau ym mis Tachwedd. Dywedodd mai hwn yw ei gyfle olaf i nodi bod Ystad Goetiroedd Llywodraeth Cymru a'i helfen gynhyrchiol yn hynod o bwysig, yn ogystal â'i hadnoddau amgylcheddol ac ecolegol. Fodd bynnag, rydym wedi gweld y rhaglen adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS) yn cymryd tua 11,000 hectar o'r ystad yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, gan arwain at ostyngiad yn yr ardal gynhyrchiol o ganlyniad i'r newidiadau a'r ystyriaethau defnydd tir hyn. Mynegodd Anthony bryderon fod ardaloedd coedwigo a phrosesau dal a storio carbon cyflym yng Nghymru yn lleihau mewn gwirionedd, nid yn cynyddu. Dylai'r ardaloedd o dir sy'n cael eu caffael ar gyfer plannu cydbwysu geisio cynnwys yr uchafswm o ran cymysgedd cynhyrchiol, oherwydd dyna'r rhywogaethau sydd wedi'u colli yn gyffredinol.

49. Trafododd Anthony fanylion sydd wedi'u cynnwys yn y diweddariad ynglŷn â thrwyddedau cwmpo coed a'r Ddeddf Amaethyddiaeth. Pwysleisiodd Anthony fod angen i'r Undebau Ffermio fod yn bresennol mewn sgysiau yn ymwneud â drafftio'r amodau a sut i roi amser i bobl addasu i'r rheolau newydd hyn. Mae CNC yn parhau i greu ar hyn o bryd ac nid yw'n gwneud gwaith da o gwbl o safbwynt ymgynghori. Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi cael ei phasio ac wedi cael Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, mae'r rheolau, y canllawiau, yr amodau a sut maen nhw'n cael eu defnyddio i fod i gael eu drafftio mewn ymgynghoriad â'r sector coedwigaeth - nid yw'n teimlo bod hyn yn digwydd ar hyn o bryd mewn gwirionedd. Esboniodd Anthony fod tua 60,000 hectar o goetir yn cael ei danreoli ar ffermydd yng Nghymru, ac os yw'r SFS yn hyrwyddo gwaith rheoli coetiroedd, dylem weld cyfran sylweddol o'r tir hwn yn cael ei reoli, sy'n golygu y bydd pobl yn gwneud cais am drwyddedau cwmpo. Mae'r pethau sy'n cael eu deddfau nawr yn mynd i olygu y bydd trwyddedau cwmpo yn fwy anodd, yn cymryd mwy o amser ac yn fwy costus i'w cyflawni. Mae drafftio'r ddogfennaeth hon a sut y cafodd y gwaith ei wneud yn arwain at beidio â rheoli coetiroedd yn hytrach na'u rheoli. Mae problem wirioneddol ar y gorwel. Mae'r Gweinidog wedi cytuno i ohirio cyflwyno deddfwriaeth newydd y Ddeddf Goedwigaeth o 1 Ionawr nes 1 Ebrill, ond nid yw hynny'n llawer iawn o amser mewn gwirionedd. Mae dau ganlyniad yn debygol o ddeillio o'r newid hwn yn ystod y flwyddyn nesaf, gan gynnwys effaith anfwriadol a dwys ar y farchnad ar gyfer gwerthiannau pren CNC, ac yn ail bydd yn anodd iawn cael

trwydded cwmpo coed i'w defnyddio ar fferm. Diolchodd Rhys i Anthony am ei holl waith a'i gyfraniadau at Fforwm Rheoli Tir Cymru gan ddymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.

50. Dywedodd Dominic fod y meysydd rydym yn canolbwyntio arnynt ar gyfer caffael yn ymwneud â datgoedwigo parhaol, ac wrth wneud hynny, rydym yn edrych ar yr holl wasanaethau ecosystem sydd ar gael y mae coedwigaeth yn eu darparu, gan gynnwys pren. Roedd arwynebedd y coetir sy'n gallu cynhyrchu pren y gellir ei gynaeafu ar yr ystad yn 104,000 hectar yn 2018, ac erbyn hyn mae'n 102,000 hectar. Y rhagamcanion llawn yw y bydd yr arwynebedd hwn yn lleihau yn araf. Ar hyn o bryd, nid ydym yn agos at gynaeafu'r cyfanswm pren cynaliadwy ar yr ystad. Mae dadl gref y dylem fod yn cynaeafu mwy, ond nid yw'n agos at yr uchafswm cynaliadwy. Dywedodd John Browne fod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Reoliadau 1979 newydd ddod i ben. Mae grŵp rhanddeiliaid yn edrych ar hyn. Fel rheoleiddiwr, mae'n ofynnol i CNC ddilyn Cod ac Egwyddorion Rheoleiddio'r Rheoleiddiwr, sydd yn y bôn yn cynnwys pethau fel ymddwyn yn ddeallus, yn gymesur, defnyddio gwybodaeth dda, ymgynghori â phobl ac ati. Mewn gwirionedd, mae'r Rheoliadau yn sicrhau bod y Ddeddf Goedwigaeth a thrwyddedau yn gyson â thrwyddedau eraill.
51. Dywedodd Dennis ei fod wedi mynychu cyfarfod ynglŷn â'r cynllun cynefin newydd ddechrau'r wythnos. Dywedodd y bydd trawsgydymffurfio yn berthnasol, sy'n golygu na fydd y rhai na allant gydymffurfio â'r rheoliadau llygredd yn gallu cael mynediad at y cynllun. Bydd cyfraddau talu yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir. Bydd ceisiadau yn seiliedig ar fapiau presennol Taliadau Gwledig Cymru, felly bydd ardaloedd o gynefinoedd a ddangosir ar y map yn gymwys ar gyfer y cynllun newydd. Gofynnodd Dennis gwestiwn am goed ar ddaliadau. Er mwyn cyrraedd y nod o 43,000 hectar o blanhigfeydd newydd erbyn 2030, cyfrifwyd y byddai'n rhaid cynyddu'r gorchudd coed presennol ar ffermydd o tua 7.5% i 10%. Ond nid oedd y cyfrifiad yn ystyried tenantiaid sydd wedi'u heithrio rhag gorfod plannu coed. Roedd esemptiadau tiroedd comin a SoDdGA wedi'u hystyried ond nid felly esemptiadau tenantiaid. Byddai ailwneud y cyfrifiad yn golygu bod angen i bawb arall sicrhau bod gan 10.67% o'u fferm orchudd coed ac nid 10%. Nid oedd Taliadau Gwledig Cymru yn gallu cadarnhau hyn yn ystod y Sioe Fawr. Dywedodd Dennis fod ffiniau traddodiadol i rwystro stoc yn cael eu dynodi'n wrychoedd ar hyn o bryd ar brif fap Taliadau Gwledig Cymru. Mewn llawer o achosion, maen nhw'n goed hen iawn, ond byddant yn cael eu dynodi'n wrychoedd. Dywedodd Dennis ei fod wedi awgrymu y gellid disgrifio planhigyn sydd angen trwydded cwmpo coed fel coeden, ac os nad yw'n bodloni'r meini prawf hynny gellid ei alw'n wrych. Mae hyn yn bwysig oherwydd gallai ffermydd sydd angen gorchudd 0.67% gynnwys hen wrychoedd fel coed.
52. Dywedodd Anthony fod CNC yn gweithredu fel rheoleiddiwr ac yn ymdrin â thrwyddedau a cheisiadau cwmpo coed. Fodd bynnag, mae CNC yn dewis peidio â chydabod naill ai Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) na Safon Sicrwydd Coetir y DU (UKWAS) fel safonau a methodoleg briodol oddi mewn i'w gyfundrefn drwyddedu. Dywedodd John fod yr ystad yn cael ei rheoli yn unol â safonau UKFS ac UKWAS. Mae'r rheolydd yn gweithredu yn unol â safonau UKFS yn unig, ond maent yn gorgyffwrdd tua 2/3 yn unig. Yn y pen draw, mae angen i ni roi'r un pwyslais ar faterion ehangach UKFS gan mai dyma'r safon sy'n sylfaen i'n gwaith rheoleiddio.

Dywedodd Anthony nad yw'r drefn o wneud cais am drwydded cwmpo coed i CNC, a rôl CNC fel rheoleiddiwr, yn cydnabod Safon Coedwigaeth y DU fel safon briodol ar

gyfer cydymffurfiaeth. Mae hon yn broblem sylfaenol. Pan fyddwn yn ystyried ailstocio, rydym yn ceisio cydymffurfio â'r arferion gorau neu ddefnyddio canllawiau UKFS. Mae angen sicrhau bod CNC fel rheoleiddiwr yn fwy cytbwys o ran ei agwedd at weithio yn unol â safonau perthnasol.

53. Dywedodd Rachel fod caffael tir yn bwnc sy'n achosi rhwystredigaeth i'n haelodau, a bod y mater yn cael ei godi'n aml mewn cyfarfodydd. Mae gan CNC bolisi o gaffael mwy o dir, ond ar yr un pryd mae ei agwedd at ailblannu yn ymddangos braidd yn anghyson ac yn araf iawn yn aml. Yn hytrach na chaffael mwy o dir amaethyddol, y canfyddiad yw bod angen i CNC fwrw iddi i blannu coed ar y tir sydd ganddo eisoes. Codwyd y mater hwn gan Uwch Swyddogion mewn cyfarfod gyda CNC yn y Sioe Fawr pan gawsom wybod nad oedd modd ailstocio unrhyw beth neu ailblannu unrhyw beth am o leiaf bum mlynedd oherwydd presenoldeb chwilen. Arweiniodd hynny at ymholiad arall, oherwydd os ydym yn cwmpo parseli bach ar dir fferm, mae'n rhaid i ni ailblannu o fewn pum mlynedd - roedd hynny'n ymddangos yn anghyson. Eglurodd Dominic fod y sylwadau yn ymwneud â 5 mlynedd yn anghywir. Dywedodd Dom y byddai'n ystyried darparu briff llawn ar ailstocio. Trafododd Dominic yr heriau yn ymwneud â phlannu poeth, gadael y tir heb ei drin ac argaeledd contractwyr. Atgoffodd Dominic aelodau'r grŵp mai'r rhain yw'r coedwigoedd ystad hynaf i'w hardystio yn barhaus yn y byd, ynghyd â choedwigoedd ystad Lloegr a'r Alban. Bob blwyddyn rydym yn cael ein harchwilio'n allanol yn unol â'r safon hon. Eleni, am y tro cyntaf ers dros 10 mlynedd, roedd nifer y bylchau yn yr archwiliad hwn yn fach iawn, felly rydym wedi gwneud gwelliant cyson yn ansawdd ein gwaith rheoli coetir ar yr ystad. Dywedodd Rachel y byddai rhywfaint o wybodaeth well am y mater hwn yn fuddiol oherwydd ei fod yn destun rhwystredigaeth. Dywedodd Gareth fod UAC wedi cael cyfarfod tebyg gyda CNC yn ystod y Sioe Fawr lle cafodd wybod bod angen aros o leiaf bedair neu bum mlynedd cyn ailblannu.

PG 07 Medi: Dominic Driver i ddarparu briff llawn ar ailstocio.

54. Wrth gyfeirio at adran Ymgynghori'r Papur Diweddar, dywedodd Rachel fod digwyddiad yn cael ei gynnal yn ymwneud â Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Gallai'r ffaith fod y digwyddiad hwn yn ymddangos ar Hyb Ymgynghori CNC beri dryswch oherwydd nad ymgynghoriad mohono - mae'n ddigwyddiad. Gofynnodd Rachel pwy sy'n ariannu ADAS i gynnal y digwyddiad hwn gan ei fod yn dweud nad yw'n ddigwyddiad CNC. Dywedodd Jon Goldsworthy ei bod yn ymddangos fel ein bod yn defnyddio ein Hwb Ymgynghori i hysbysebu'r digwyddiad hyfforddi, sy'n debygol o fod yn amhriodol. Dywedodd Sarah y byddwn yn gofyn am adborth ar y pwynt gweithredu hwn.

PG 08 Medi: Jon Goldsworthy a Sarah Hetherington i roi gwybod am sylwadau yn ymwneud â defnyddio Hyb Ymgynghori CNC i hysbysebu digwyddiadau hyfforddi.

55. Cyfeiriodd Gareth at sylwadau cynharach gan Dennis yn ymwneud â faint o goetir sydd ar dir fferm ar hyn o bryd. Dywedodd Gareth ei fod wedi clywed bod y ffigwr yn debycach i 6.6%, nid 7.5%. Gofynnodd Gareth a oes ffigwr cywir ar gael. Gallwn ddeall y llinell sylfaen ac yna penderfynu faint o goetir ychwanegol y bydd yn rhaid ei blannu o dan gynigion presennol SFS. Dywedodd John y gallwn bennu pwynt gweithredu i weld a oes ffigwr cywir ar gael.

PG 09 Medi: John Browne i geisio canfod a oes ffigwr cywir ar gael ynglŷn â faint o goetir sydd ar dir fferm yng Nghymru ar hyn o bryd.

56. We could 2000 action must fine.??

57. Fe wnaeth Rhys atgoffa aelodau'r grŵp bod modd gofyn am ddiweddariadau penodol trwy anfon neges e-bost at Bronwen cyn y cyfarfod nesaf.

58. Ni wnaed unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â diweddariadau ysgrifenedig CNC a ddarparwyd cyn y cyfarfod.

Eitem 6. Diweddariadau gan UAC / NFU Cymru / CFfl Cymru / Confor / CLA / TFA / Llywodraeth Cymru

59. **UAC:** Dywedodd Gareth Parry fod UAC yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Dywedodd Gareth fod yr undeb yn pryderu nad yw Lywodraeth Cymru wedi darparu diweddariad yn dilyn yr ymgynghoriad ar gynllun trwyddedu ar gyfer Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Mae cyfarfod Grŵp Masnachu Maetholion yn cael ei gynnal ddydd Gwener o ganlyniad i uwchgyhadledd y Prif Weinidog.

60. **NFU Cymru:** Dywedodd Rachel fod Rheoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol yn mynd y tu hwnt i godi ymwybyddiaeth. Bu llawer o gyfarfodydd i godi ymwybyddiaeth, ond y cwbl y mae hynny wedi'i wneud yw cymhlethu pryderon a gorbryder ffermwyr. Mae ffermwyr yn ceisio mynd i'r afael â darn cymhleth iawn o reoleiddio sy'n cynnwys gofynion cymhleth iawn ar gyfer cadw cofnodion. Bydd yn cymryd amser hir iddynt addasu i'r gofynion hyn.

Mae NFU Cymru yn ymwneud â'r gwaith ar ffosffadau hefyd. Mae pawb yn aros nawr am gam nesaf cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ddiweddarach eleni. Mae Cynhadledd Ffermio Cynaliadwy NFU Cymru yn cael ei chynnal yn Bodwi, Pwllheli ddydd Iau nesaf, ac mae croeso cynnes i bawb. Dywedodd Rhys y bydd yn mynychu'r gynhadledd.

Gofynnodd Rhys a oes proses ar waith ar gyfer gwerthuso, gweithredu a deall y gwersi a ddysgwyd, yr anawsterau a wynebwyd ac ati. Dywedodd Rachel fod y rheoliadau hyn yn cynnwys adolygiad bob pedair blynedd, a bod y nesaf yn agosáu. Awgrymodd Rachel y byddai'n syniad da cynnwys hynny mewn agenda yn y dyfodol er mwyn i ni ddeall rôl CNC yn yr adolygiad pedair blynedd. Dywedodd Rachel nad yw hi'n argyhoeddedig y bydd yr adolygiad yn cynnwys y math o ystyriaethau dynol/cymdeithasol sydd eu hangen. Rheoliad Cymru gyfan yw hwn sy'n effeithio ar lawer iawn o fusnesau fferm, ac mae llawer o bobl yn poeni am yr effeithiau. Dywedodd Rachel ei bod yn anoddach cydymffurfio â'r rheoliadau hyn ar hyn o bryd oherwydd y system gynllunio a'r ffaith fod CNC yn ymgynghorai statudol i'r system gynllunio. Gofynnodd Rhys a yw'r pryderon hyn wedi cael eu cyflwyno'n ffurfiol ar ffurf ysgrifenedig i CNC. Dywedodd Rachel fod ein pryderon yn ymwneud â chynllunio a sut y bydd y system gynllunio yn hwyluso cydymffurfiaeth â'r rheoliadau hyn yn hysbys iawn. Mae lefel y pryder ymysg ein haelodau wedi arwain at NFU Cymru yn ysgrifennu at yr holl LPAS a threfnu cyfarfodydd gyda'r awdurdodau cynllunio hyn er mwyn gweld a allwn ni fynd i'r afael â'r materion. Dywedodd Rachel y bydd hi'n cadarnhau a oes llythyr wedi'i anfon i CNC hefyd.

PG 10 Medi: Rachel Lewis Davies, NFU Cymru i gadarnhau a wnaeth yr undeb anfon llythyr ffurfiol i CNC yn nodi pryderon bod y system gynllunio yn atal

cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a rôl CNC fel ymgynghorai statudol.

61. **CFfi Cymru:** Nid oedd diweddariad ar gael.
62. **Confor:** Dywedodd Anthony fod Confor wedi bod yn gweithio'n agos ar bolisi coedwigaeth ac ar sicrhau bod hyfforddiant priodol a digonol wedi cael ei roi i staff CNC ac i aelodau o'r sector preifat. Ein prif waith ar hyn o bryd yw ceisio deall effaith yr oedi cyn cymeradwyo datganiadau o ddiddordeb ar gyfer grantiau cynllunio coetiroedd a chynlluniau grant coetiroedd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd. Cyfeiriodd Anthony at ryngweithio â CNC gan nodi bod rhywfaint o grebachu wedi bod oherwydd materion staffio ar gyfer y contractau gwerthu pren sydd ar ddod. Darparodd Anthony drosolwg byr o gyflwr presennol y marchnadoedd pren.
63. **CLA:** Darparodd Fraser McAuley ddiweddariad ysgrifenedig byr. Mae CLA yn ymwneud ag ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol, a bydd yr adroddiad ar sut i gynyddu cynhyrchiant gwledig yn cael ei lansio ar 15 Tachwedd (mae'r CLA yn darparu'r ysgrifenyddiaeth) ac mae'n cynnwys adran benodol ar amaethyddiaeth a'r gadwyn fwyd.

PG 11 Medi: Fraser McAuley, CLA i ddsbarthu copi o adroddiad ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol pan gaiff ei gyhoeddi.

Dywedodd Fraser fod rhai pryderon wedi'u mynegi yn ymwneud â Chynllun Cynefin Cymru dros dro, yn enwedig oherwydd yr amserlen dynn ar gyfer cyflwyno ceisiadau a'r ffaith nad oes cyllideb glir wedi'i phennu ar hyn o bryd. Hefyd, rydym yn aros am yr ymgynghoriad SFS nesaf.

64. **TFA Cymru:** Dywedodd Dennis Matheson ei fod wedi mynychu'r digwyddiad yn ymwneud â lleihau tanau bwriadol a gynhaliwyd ym Merthyr dros 2 ddiwrnod ym mis Mehefin. Mynychodd Dennis Ffair Helgig Gogledd Cymru hefyd. Roedd rhai negeseuon clir wedi deillio o'r ddau ddigwyddiad gan gynnwys pwysigrwydd pori gwartheg a defaid ar y rhostir er mwyn lleihau llystyfiant, a phwysigrwydd llosgi dan reolaeth.

Eitem 7. Unrhyw Fater Arall

65. Fe wnaeth aelodau'r grŵp drafod y papur Dip Defaid a ddsbarthwyd cyn y cyfarfod. Gofynnodd Rachel a oedd y papur yn destun ymgynghoriad oherwydd ei fod yn darllen fel pe bai penderfyniad eisoes wedi'i wneud. Os nad oedd yn destun ymgynghoriad, dylai ymgynghoriad fod wedi'i gynnal. Mynegodd Rachel ei siom a dywedodd ei bod yn teimlo fel bod CNC yn defnyddio'r drefn i weithredu mewn ffordd benodol ac y gallai'r gymuned ffermio ddehongli hynny fel dull gweithredu sy'n trechu ystyriaethau amgylcheddol a lles anifeiliaid. Ni fydd yn ymarferol rhoi rhybudd 48 awr bob amser. Enghraifft bosibl yw ffermwr mynydd sy'n ffermio tir comin ac sydd wedi casglu ei ddefaid, ac ar ôl archwilio'r defaid, mae'n sylwi ar achosion o'r clafr yn y ddiadell. Ni fydd eisiau aros am 48 awr o reidrwydd i roi'r defaid hynny yn y twb oherwydd bydd yn awyddus i gwblhau'r gwaith cyn gynted ag y bo modd er mwyn osgoi lledaenu'r clafr i weddill y ddiadell. Gallech awgrymu bod modd gwahanu'r defaid oddi wrth y lleill, ond mewn gwirionedd mae'n ffaith adnabyddus bod y clafr yn gallu goroesi ar lefydd fel pyst ffensys. Felly, wrth reswm, po gynharaf y byddwch chi'n nodi'r broblem, ac yn mynd i'r afael â'r broblem, gorau oll. Felly, mae 48 awr yn ymddangos yn anymarferol ym mhob

sefyllfa. Byddai NFU Cymru, ac eraill fwy na thebyg, wedi gwerthfawrogi proses ymgynghori o ryw fath ar y mater hwn cyn gwneud penderfyniad. Roedd Hedd Pugh, NFU Cymru, yn cytuno a dywedodd y bydd ffermwyr yn siomedig iawn i glywed y bydd yn rhaid iddynt roi rhybudd 48 awr ymlaen llaw, gan nad yw hynny'n ymarferol. Mae Llywodraeth Cymru eisiau dileu'r clafr, ond bydd y rhwystr hwn yn atal ffermwyr rhag achub y blaen ar y clefyd.

Dywedodd Gareth Parry nad oedd wedi clywed am y newid hwn cyn darllen y papurau cyn y cyfarfod, felly mae'n syndod i UAC hefyd. Roedd angen cynnal ymgynghoriad cyn cyflwyno newid mawr fel hwn. O ddarllen y diweddariad, ni fydd yn berthnasol ar hyn o bryd i'r rhai sydd wedi cael trwyddedau cyn mis Ebrill, ond mae geiriad y diweddariad yn awgrymu y bydd yn berthnasol i bob deiliad trwydded yn y pen draw. Mae hwn yn newid sylweddol a dylid bod wedi ymgynghori arno.

Jon Goldsworthy yw Rheolwr Tir Cynaliadwy newydd CNC, ac mae wedi disodli Dav Letellier. Cynhaliwyd Adolygiad Strategol o Daliadau a oedd yn cynnwys y ddeddfwriaeth hon. Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos rhwng mis Hydref y llynedd a mis Ionawr, ond roedd hynny'n ymwneud â'r adolygiad o daliadau a'r costau. O ran ymgynghori ar y newid i'r gofynion, byddwn yn pennu pwynt gweithredu ar gyfer hyn. Mae CNC wedi bod yn gweithio ar Brosiect Dileu'r Clafr gyda Choleg Sir Gâr hefyd.

PG 12 Medi: Jon Goldsworthy, CNC i gysylltu â chydweithwyr i holi a gynhaliwyd ymgynghoriad ar y newidiadau i'r gofynion yn ymwneud â dip defaid, a rhoi diweddariad i'r grŵp wedyn.

Dywedodd Rachel ei bod wedi ymateb i'r Adolygiad Strategol o Daliadau a'i bod yn gwbl sicr na chafodd y newid hwn ei gynnwys yn yr ymgynghoriad hwnnw. Roedd yr ymgynghoriad hwnnw'n gyfle posibl i CNC roi gwybod am y newid hwn os oedd yn bwriadu gwneud hynny.

66. Dywedodd Bronwen fod cais wedi dod i law i gael sgwrs gyflym am gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn y dyfodol. Dywedodd Rhys fod cynnal un cyfarfod y flwyddyn wyneb yn wyneb yn synhwyrol. Mae'n ffordd o ddatblygu cysylltiadau a gallai fod yn gyfle i ymweld â safle ar yr un pryd. Dywedodd Tim Kirk, Confor fod y cyfarfodydd hyn yn ffordd ddiog iawn o weithredu mewn gwirionedd. Roedd dwy elfen i'r rhyngweithio a oedd yn arfer digwydd yn y cyfarfodydd hyn; trafodaeth dda o amgylch y bwrdd a chyfle i gyfarfod â'n cydweithwyr a thrafod y problemau yn anffurfiol. Yr hyn sydd gennym nawr yw cyflwyniad annaturliol o ffurfiol, nad yw'n addas i'r diben. COVID oedd y rheswm pam y gwnaethom ddechrau'r cyfarfodydd ar-lein hyn, ond mae COVID wedi mynd bellach, felly gadewch i ni ddechrau cynnal cyfarfodydd go iawn eto, os gwelwch yn dda. Roedd Rhys yn cydnabod bod mwy o ryngweithio yn digwydd mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Efallai y gallem drafod y mater hwn yng nghyfarfod nesaf y fforwm. Dywedodd Bronwen y bydd adolygiad o'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp yn cael ei gynnal hefyd.

PG 13 Medi: Bronwen Martin i gynnwys trafodaeth am gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

67. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 11 Rhagfyr – anogir aelodau o Fforwm Rheoli Tir Cymru i awgrymu eitemau ar gyfer yr agenda a phynciau trafod posibl, ac mae croeso i bawb eu hanfon nhw at Bronwen.

68. Ni chodwyd unrhyw fater arall.

Diwedd y cyfarfod